

## Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych

Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd  
ddydd Iau 7<sup>fed</sup> Mawrth 2019 yng  
Nghoed Pella am 10:00

### Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol

Tim Faire (Cadeirydd)  
Gwen Butler (Is-gadeirydd)  
Cyng Don Milne (CBSC)  
Jo Hughes  
Paul Frost  
Tom Woodall  
Laura Crawford  
Kay Culhane  
Kevin Slattery  
Chris Marshall  
Duncan Barratt  
Hugh Crosswood  
Iona Pierce

### Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sian Williams (Warden Mynediad)  
Victoria Currie (Cydylynydd ERF Ardal y De)  
Caroline Turner (Swyddog Mapiau Swyddogol)  
Tom Gravett (Rheolwr ERF Ardal y Dwyrain)

### Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Hannah Arndt (Swyddog Mynediad Cefn Gwlad ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol)  
Adrian Walls (Rheolwr Hawliau Tramwy)  
Howard Sutcliffe (Rheolwr Gwasanaethau Parcmon ac AHNE)  
David Shiel (Uwch Swyddog Cefn Gwlad (AHNE))  
Huw Rees (Rheolwr Cefn Gwlad a Threftadaeth)

### Arsylwyr

Paul Mitchell (Cyfoeth Naturiol Cymru)  
Peter Rutherford (Fforwm Mynediad Lleol Eryri)  
Tom Culhane

### Cyflwynwyd Ymddiheuriadau am Absenoldeb gan: -

Cyng Martyn Holland, Max Grant, Hilary Davies, John Buckley, Heather Fitzgerald, Mae Jim Gaffney wedi cynnig ei ymddiswyddiad i'r Fforwm.

### Camau gweithredu a nodiadau o'r cyfarfod diwethaf

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Rhestrod HA yr ymddiheuriadau a ddaeth i law. HA i ddiwygio'r nodiadau i gynnwys y newidiadau a gafwyd gan Duncan Barratt a John Buckley drwy'r e-bost. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd nodiadau'r cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir. Cynigiodd Tom Woodall a Duncan Barratt eu bod yn gywir.

### Materion yn codi

Roedd y camau gweithredu a godwyd yn y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn;

Pwynt gweithredu	Manylion y cam gweithredu	Y Sefyllfa Bresennol
AP 9.1	A all Victoria Currie ddarparu'r Adroddiadau RoWIP i'r Fforwm Mynediad Lleol?	Nid oedd yr adolygiadau ROWIP blaenorol ar system Conwy mwyach. Mae'r wybodaeth ar gyfer yr hen ROWIP yn yr asesiadau ar gyfer yr un newydd fel adolygiad 10 mlynedd cyffredinol.
AP 9.2	A allai Sian Williams roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynllun Cyfrannu Giât yng Nghonwy?	Sian i roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

## **Natur er budd Iechyd – Cyflwyniad gan Emily Reddy**

Mynychodd Emily y cyfarfod i gyflwyno a thrafod y prosiect Natur er budd Iechyd. Mae Emily yn cefnogi Presgripsiynu cymdeithasol y 2025Movement ac i helpu gwasanaethau iechyd, fe wnaeth Tai a Chefn Gwlad Sir Ddinbych uno i lunio cais am nawdd ar gyfer 4 ardal. Nod y prosiect yw rhoi sylw i bryderon ac anghydraddoldebau mewn cymunedau ar draws Sir Ddinbych a gafodd eu henwi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Tai Sir Ddinbych sy'n gyfrifol am y rhaglen atgyfeiriadau ymarfer corff, fodd bynnag dim ond 50% o'r bobl a atgyfeirir bob blwyddyn sy'n mynychu mewn gwirionedd ac oddeutu ¼ o'r rhain sy'n cwblhau'r rhaglen 18 wythnos lawn. Mae llawer o bobl yn teimlo'n anghyfforddus yn mynd i'r gym. Mae Natur er budd Iechyd yn darparu ar gyfer y bobl hynny a grwpiau eraill megis pobl ifanc sydd â phryderon iechyd meddwl.

Mae'r prosiect yn defnyddio ffyrdd eraill o roi sylw i'r materion hyn a chael pobl i godi allan a bod yn egniol. Mae'n canolbwyntio ar 4 ardal – ystadau tai Sir Ddinbych yn y Rhyl, Prestatyn, Llangollen a Chorwen. Mae Prestatyn eisoes yn arwain y ffordd mewn Presgripsiynu cymdeithasol drwy gyfrwng y grŵp Artisans Collective; mae Corwen yn elwa o brosiect trafndiaeth Datblygu Gwledig sydd o fudd i'r prosiect hwn ac i'r gymuned. Mae'r prosiect yn cydweithredu â Phrifysgol Bangor a BIPBC. Mae'r dull o fesur allbynnau yn wahanol i brosiectau arferol oherwydd y mewnbwn iechyd ac mae Emily yn aros am fynediad i feddalwedd presgripsiynu cymdeithasol elfennol er mwyn gallu monitro'r gwelliannau i iechyd drwy ymarfer corff a'r gweithgareddau a gynigir. Yn y cyfamser mae'r prosiect yn defnyddio holiadur Warwick Caeredin gan fod y bwrdd iechyd yn awyddus i ganfod gwerth y prosiect.

Ceir nifer o atgyfeiriadau yng ngogledd y sir drwy iechyd galwedigaethol, iechyd meddwl a meddygon teulu. Yn y de ceir mwy o hunangyfeirio ac atgyfeiriadau o'r gymuned. Mae llawer o bobl sy'n byw ar ystadau tai Sir Ddinbych yn cael eu cefnogi gan nifer o wasanaethau. Mae'r prosiect yn ymgysylltu â'r grwpiau hyn i leihau eu hanghenion a'u hannog i helpu eu hunain. Mae'r prosiect yn gweithio'n dda â'r Gwasanaeth Cefn Gwlad fel partner oherwydd eu bod yn cael eu croesawu ar yr ystadau tai.

Cynigir sesiynau cerdded a gwirfoddoli am ddim yn wythnosol i'r pedair cymuned. Ymysg y prosiectau y mae prosiect siediau, codi waliau cerrig sych ac adeiladu llochesau yn Llangollen a phrosiect rhandir cymunedol sydd â 18 o blotiau yng Nghorwen. Mae rhai cymunedau wedi hawlio perchnogaeth dros y prosiect, sy'n hanfodol ar gyfer ei gynaliadwyedd. Mae Tai Sir Ddinbych wedi darparu arian cyfatebol i wella mannau gwyrdd a symud i ffwrdd oddi wrth gynnig parciau, ond gwella mannau gwyrdd mewn ffordd gynaliadwy.

*Gofynnodd Laura beth sy'n cael ei gynnig i bobl ag anableddau.*

Mae'r llwybr iechyd yn Llangollen yn dilyn y gamlas, ac mae hwn yn hygyrch i bawb.

*Gofynnodd Paul a yw'r prosiect yn targedu pobl ag anableddau.*

Nid yw'n gwneud hynny'n uniongyrchol, fodd bynnag gall unrhyw un gael ei gyfeirio neu hunangyfeirio.

*Gofynnodd Paul am gynaliadwyedd y prosiect.* Dywedodd Emily eu bod wedi ceisio gweithio â grwpiau cymunedol sy'n bodoli eisoes er mwyn bod yn gynaliadwy, gan gynnwys Artisans collective ym Mhrestatyn, Grŵp cymunedol Pengwern yn Llangollen a Grŵp rhandir Edyrnion yng Nghorwen.

*Holodd Kevin sut caiff meddygon teulu ac Ysgolion eu hysbysu o'r prosiect.* Mae Emily wedi ymweld â'r holl feddygon teulu ac mae'n gweithio â Betsi Cadwaladr. Mae gan rai meddygon teulu fwy o ddiddordeb

nag eraill yn y prosiect. Mae'n anos yn y de, ond mae meddygon teulu dan gymaint o bwysau yn y gogledd i atgyfeirio, mae'r prosiect yn dda iddynt hwy.

*Gofynnodd Peter a oedd y timau wedi cael unrhyw hyfforddiant ychwanegol. Cefndir Emily yw cyflenwi'r math hwn o brosiect ac mae wedi dilyn yr hyfforddiant Every Conservation Counts a bydd yn awr yn hyfforddi'r staff.*

### **Diweddariad gan y Swyddog: Sian Williams**

*Cerdded Conwy* – tynnodd Sian sylw at y grŵp cymunedol o arweinwyr cerdded gwirfoddol, sy'n cynnal chwech o benwythnosau cerdded yn ystod y flwyddyn. Ceir hefyd ŵyl gerdded Trefriw ym mis Mai a digwyddiadau cerdded ychwanegol a gynhelir gan yr arweinyddion pan allant yn ystod y flwyddyn; cânt eu hysbysebu ar Facebook. Mae Cerdded Conwy yn dal i fod yn aelodau o'r Bartneriaeth Awyr Agored sy'n cynnig hyfforddiant parhaus i arweinyddion mewn Cymorth Cyntaf, Cyfarwyddo, Daearreg a Phlanhigion. Mae'r arweinyddion yn cynnig troeon byr ar *Daith y Pererin a'r Llwybr Llechi mewn adrannau*. Mae Aled Owen, awdur y llyfr *Llwybrau Llechi*, yn rhoi sgwrs ar 22<sup>ain</sup> Mawrth, cysylltwch â Sian am fanylion.

*Llwybr Arfordir Cymru* – mae'r gwaith ar wyneb y Llwybr yn awr wedi'i gwblhau ar Greigiau Rhiwledyn. Diben y gwaith hwn yw atal y glaswelltir carreg galch rhag erydu a gwarchod yr AoDdGA. Mae dwy giât fochyn wedi cael eu trwsio/adnewyddu.

Adnewyddwyd giât fochyn a giât i gŵn ar Fynydd Conwy.

Mae'r arwyddbyst yn pylu ar lwybr yr arfordir ar draws yr ardal ac mae Sian wedi gwneud archeb i adnewyddu'r rhain. Mae'r gwaith arwyddbyst wedi cael ei wneud ar Greigiau Rhiwledyn ac ar yr arfordir i'r gorllewin cyn belled.

Gwelwyd difrod ar ôl storm ym Morfa Madryn yn y gorffennol. Ar ôl trafod ynglŷn ag adfer y Llwybr, penderfynwyd peidio â'i adfer gan fod yr ardal yn lastraeth naturiol ac oherwydd y caiff ei adael i lifo i'r dyfodol. Bydd y gwaith i dacluso'r ardal a'i diogelu yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth.

Mae gwefan Llwybr Arfordir Cymru newydd ar gael. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn am lwybrau byr ar gyfer teithlyfrau. Mae Sian yn gweithio ar fapio'r rheini ar hyn o bryd.

Mae diwedd y flwyddyn ariannol yn nesáu a bydd Sian yn gwario rhyw gymaint o'r arian sy'n weddill ar glirio tywod yn Nhraeth y Gorllewin.

Mae Sian yn cael dau fyfyrwr un diwrnod yr wythnos am 10 mis bob blwyddyn ac maent wedi cwblhau'r arolwg hawliau tramwy 5% blynyddol. Cafodd popeth ei wneud yn ddigidol am y tro cyntaf; mae hyn wedi gweithio'n dda a dim ond angen dadansoddi'r ffigurau sydd rŵan.

Mae Conwy, ochr yn ochr â nifer o awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cerddwyr ar gais EnRAW – Llwybrau i Bobl. Mae hwn yn seiliedig ar gymunedau a bydd yn cyd-fynd â nodau llesiant a RoWIP. Rydym yn aros i glywed y canlyniad.

Mae *Cyfrannu Giât* yn mynd rhagddo'n araf, mae Sian wedi gwneud ffurflen gais a thelerau ac amodau drafft, ac mae wedi siarad â thîm mapiau a TG Conwy i fapio lleoliadau addas ar gyfer y giatau ar wefan Conwy. Gall y defnyddiwr wedyn glicio ar leoliad i gael rhagor o wybodaeth. Mae gan Sian restr o gontractwyr posibl i ysgrifennu atynt i ofyn a fyddai ganddynt ddiddordeb yn y cynllun. Mae cynllun meinciau coffa Conwy yn gweithio ar hyn o bryd gyda Chonwy yn cyflenwi'r manylion a'r rhoddwr a'r contractwr yna'n cwblhau'r gwaith ac yn talu rhyngddynt.

*Ffyrdd Coll* – rhoddodd Duncan Barratt gyflwyniad i'r Fforwm ac i'r swyddogion yn swyddfa CBSC. Mae Simon Billington, pennaeth Mannau Agored wedi cyflwyno'r ymateb canlynol:

**Cyflwyniad Ffyrdd Coll ac Anomaleddau gan Duncan Barrett (aelod o Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych) i swyddogion CBSC.**

15/01/2019 Swyddfeydd Mochdre CBSC

**Yn bresennol:**

Duncan Barratt

Staff CBSC: Simon Billington (Rheolwr Mannau Agored, Elwyn Williams (Rheolwr Ardal, y de), Vicky Currie (Cydylydd Ardal, y de), Caroline Turner (Swyddog Mapiau Swyddogol), Barbara Owsianka (Ecolegydd), Sian Williams (Warden Mynediad).

Mae Duncan Barrett (DB) wedi edrych i mewn i ffyrdd coll o amgylch Betws yn Rhos a'r ardal ehangach yn Sir Conwy. Mae'n awyddus i gyflwyno ceisiadau am DMMO ar gyfer y ffyrdd coll a'r anomaleddau hyn a chyflwynodd rhai o'i ganfyddiadau yn y cyfarfod. Roedd hefyd yn awyddus i wybod faint o amser ac adnoddau y gallai'r awdurdod eu rhoi i'r mater oherwydd ei fod yn rhywbeth y gallai'r Fforwm Mynediad Lleol ei ddatblygu o bosibl â gwaith ymchwil.

Ymatebodd Simon Billington (SB) ar ran Mannau Agored nad oes gennym ar hyn o bryd y gyllideb i edrych i mewn i'r mater nac ysgwyddo dim rhagor o waith. Nid yw ein Swyddog Mapiau Swyddogol ond yn gallu delio â nifer fechan o ymholiadau bob blwyddyn ac ni ellid cynnig amser swyddogion i gefnogi is-grŵp o'r Fforwm. Mae unrhyw geisiadau DMMO a gawn yn cael sylw yn y drefn y dŏnt i law. Mae posibilrwydd y gallem edrych i mewn i'r prosiect i'r dyfodol pe gallem gael gafael ar gyllid e.e. Grant ENRaW. Byddai'n rhaid edrych ar hyn yn fwy creadigol o safbwynt iechyd a lles. Hefyd, byddai angen i hyn gael ei wneud drwy weithio mewn partneriaeth â thrydydd parti fel y Cerddwyr.

<b>Cam Gweithredu</b> <b>10.1</b>	HA i gylchredeg yr ymateb e-bost â nodiadau'r cyfarfod
--------------------------------------	--

Kevin: Yn wych clywed am hynt Cyfrannu Giât.

O ran Cerdded Conwy, gofynnodd Kevin sut ydych chi'n mynd ati i ofyn/awgrymu bod meddygon teulu yn cyfeirio at y teithiau hyn. Mae cymdeithas y Cerddwyr wedi bod yn gofyn i Lywodraeth Cymru a San Steffan er mwyn i feddygon teulu gadw cerdded mewn cof fel gweithgaredd defnyddiol ar gyfer iechyd a lles. Felly, os yw meddygon teulu ac Ysgolion yn ymwybodol o amrywiol grwpiau cerdded dylent bresgripsiynu hyn yn hytrach na moddion. A oes gan Cerdded Conwy gysylltiadau â meddygon teulu. Dywedodd Sian nad oes cysylltiad uniongyrchol ar hyn o bryd, ond maent wedi hysbysebu i unrhyw un ddod draw, nid oes raid ichi fod yn aelod.

Mae gan Sian gysylltiadau â Mind Aberconwy a Nant y Glyn i gynnig teithiau tywys i gleientiaid i'w hannog i ddod ar Deithiau Cerdded Conwy. Mae hyn wedi bod yn ddigon anodd gan na fu llawer yn dod ar y teithiau yn Nant y Glyn oherwydd bod angen i bob cleient gael asesiad risg gan ei 'ofalwr' cyn dod ac am ryw reswm dydy hyn heb fod yn digwydd. Mae Conwy yn agored i deithiau â Nant y Glyn os bydd hyn yn digwydd i'r dyfodol. Mae arweinwyr gwirfoddol Cerdded Conwy hefyd ychydig yn nerfus o arwain y teithiau hyn heb hyfforddiant priodol ac mae rhai nad ydynt, yn ddealladwy, eisiau gwneud hyn.

Ychwanegodd Paul ei fod yn cytuno â Sian, gwirfoddolwyr ydynt, ond mae sylfaen sgiliau penodol yn ofynnol i ddelio ag atgyfeiriadau boed hynny oherwydd gallu neu broblemau corfforol neu feddyliol ac mae gan bobl hawl i ddisgwyl cael eu trin mewn ffordd broffesiynol o safbwynt y problemau hynny. Mae ar wirfoddolwyr angen hyfforddiant i ddelio â hyn.

Lleisiodd Howard ei bryderon ynglŷn â chyllid Llywodraeth Cymru a'i natur gystadleuol gan ddeud bod hyn yn effeithio ar ddilyniant oherwydd bod prosiectau'n cael eu hailddyfeisio i fodloni'r meini prawf.

Cyfeiriodd Laura at y broblem â'r tywod ar Draeth y Gorllewin yn Llandudno. Ym mhen y traeth mae yna ramp, sydd wastad wedi'i rwystro â thywod sy'n golygu na all defnyddwyr cadeiriau olwyn ei ddefnyddio. Yn y cyfeiriad arall at Ddeganwy nid yw'n bosibl cael mynediad a dyma'r unig lwybr i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn yr ardal.

Atebodd Tom Gravett drwy ddweud bod Conwy wedi cael gafael ar arian grant Llwybr Arfordir Cymru i ddelio â chlirio tywod, ond mai mater i'r adran Briffyrdd ydyw. Nid yw'n gynaliadwy dal i glirio oherwydd bod degau o filoedd o bunnau yn cael ei wario ac mae'r tywod yn dal i ddod yn ei ôl. Mae pobl yn ystyried dargyfeirio'r llwybr er mwyn delio â'r mater.

<b>Cam Gweithredu 10.2</b>	Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf ar sefyllfa'r ramp a'r tywod.
----------------------------	---

Cyfeiriodd Tom W at y gwaith Teithio Llesol sy'n ystyriaeth ehangach yn yr ardal hon.

Cynghorydd Don Milne: Mae gwaith sylweddol ar atal llifogydd yn mynd rhagddo ar draeth y gogledd a'r gorllewin, a dylai hwnnw ateb y broblem. Ychwanegodd fod £40,000 wedi'i wario i gadw'r llwybr yn glir rhag tywod y llynedd. Mae Conwy ar hyn o bryd yn edrych ar welliannau pellach drwy deithio llesol i gwrs golff Maes Du. Fel y mae, nid yw'n ymarferol cynnal y llwybr hwn.

Y pen arall y cyfeiriodd Laura ato yw lle caiff tywod ei chwythu drosodd i'r promenâd, mae'n bosibl y bydd angen adolygu'r gwaith cynnal a chadw yn y rhan honno.

Cynigiodd Kevin roi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf ar gynigion i glirio tywod yn Llandudno.

Ychwanegodd Kevin y gofynnwyd i'r Cerddwyr fynd â grŵp o uned iechyd meddwl Hafod yn y Rhyl am dro bob mis am ychydig flynyddoedd. Roedd arweinydd y daith yn fodlon cynnal y daith heb hyfforddiant ychwanegol. Mae dau o aelodau grŵp Hafod yn awr yn arweinyddion teithio hyfforddedig â'r Cerddwyr.

### **Diweddariad gan y Swyddog: Adrian Walls**

Cyflwynodd Adrian y daflen milltiroedd cymunedol ddiweddaraf i'r Fforwm gan esbonio bod y prosiect yn wreiddiol wedi dod drwy RoWIP Sir Ddinbych i ddarparu ar gyfer selogion cerdded ac i hybu manteision iechyd cerdded, yn ogystal â bod yn atyniad i ddenu twristiaeth. Canfu'r gwaith asesu y gellid bod 70 o leoliadau posibl. Ariannwyd y prosiect yn wreiddiol drwy RoWIP, gyda £10,000 bob blwyddyn yn talu am amser Hannah, taflen a gwaith cyffredinol i uwchraddio'r dodrefn. Eleni, bu bid am £20,000 i'r prosiect yn llwyddiannus drwy'r Grant Seilwaith Gwyrdd i dynnu'r camfeydd a gosod giataiu mochyn yn eu lle.

Mae gan Lanfair DC gynllun cymuned lle'r oeddent eisiau llwybr yn cysylltu Pwllglas â siop y pentref. Roedd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru hefyd yn gobeithio denu mwy o'r gymuned i ddefnyddio ei safleoedd.

Roedd prosiect Adrian wedi cyfrannu at osod hysbysfwrdd i'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a chynnal digwyddiad hyrwyddo cyhoeddus â'r ysgol leol, gan gynnwys taith, plannu cennin Pedr gwyllt a gwasgu

afalau i gynnig profiad gwerthfawr yn yr amgylchedd naturiol. Mae'r prosiect hefyd wedi sicrhau arwyddion newydd i'r llwybr, grisiau newydd a gosodwyd 24 o adeileddau newydd, gan gynnwys 9 giât, 11 giât mochyn, 4 giât cae a thynnwyd un eitem. Prynwyd 400 o arwyddbyst newydd, dyluniwyd taflen newydd hefyd sy'n cynnwys ffeithiau a map ac argraffwyd 10,000 ohonynt. Cyfanswm cost y prosiect oedd £17,000 a dywedodd Adrian mai dyma faint o arian sy'n ofynnol i gyflawni'r math hwn o brosiect. Roedd hefyd yn golygu nad oedd y staff ar gael i ddelio â chwynion a phroblemau hawliau tramwy eraill.

O ddadansoddi data RoWIP gwelwyd nad oedd Sir Ddinbych yn 2005/6 yn gosod dim giataiu llaw/clwydi. Mae hyn yn parhau am 4-5 mlynedd. Fodd bynnag, mae 20-40 o giataiu llaw a 40-50 o giataiu mochyn wedi cael eu gosod yn Sir Ddinbych bob blwyddyn dros y blynnyddoedd diwethaf. Mae'r pwyslais wedi symud oddi wrth gamfeydd i ddarparu a gosod giataiu llaw.

Gofynnodd Kevin a ddefnyddir grwpiau gwirfoddolwyr. Dywedodd Adrian y gall fod yn anodd rheoli hyn, eu hyfforddi a'u goruchwyllo. Nid yw'n ffynhonnell ddibynadwy ar hyn o bryd, oherwydd yr amser yr oedd yn ei olygu, fodd bynnag mae un grŵp wedi cysylltu'n ddiweddar ac mae Adrian yn awyddus i weithio â nhw.

Holodd Tom W sut roedd RoWIP Sir Ddinbych yn mynd rhagddo. Dywedodd Adrian ei fod yn dal i wneud y gwaith asesu. Nid oes llinell amser ar hyn o bryd gan mai ef yw'r unig un sy'n gweithio arno.

### **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Drafft Cyngor Conwy - Victoria Currie**

Cyflwynodd Victoria RoWIP drafft Conwy i'r Fforwm gan ddweud bod £500,000 wedi dod oddi wrth Lywodraeth Cymru i wneud y cynllun diwethaf, a oedd yn gynllun uchelgeisiol. Yn 2013 ad-drefnwyd cyngor Conwy a rhannodd yr hawliau tramwy yn 3 ardal ranbarthol. Dim ond 1 swyddog a geir yn awr ar gyfer y sir gyfan.

Cymharodd Victoria y strwythurau cyfredol a'r rhai blaenorol gan ddweud bod gan lawer o swyddogion yn awr gylch gwaith llawer ehangach. Mae swyddogion cynnal a chadw yn awr yn delio â hawliau tramwy a phrifyrdd.

Roedd y cynllun uchelgeisiol yn cynnwys 13 o staff a chyllideb gwerth £1 filiwn i gywiro'r rhwydwaith a £500,000 i'w gynnal.

Caiff y cynllun newydd ar gyfer 2019-29 ei ariannu o'r cyllidebau presennol gan nad oes dim arian grant ar gael. Mae'n bwriadu defnyddio mwy ar wirfoddolwyr a'r trydydd sector. Ychwanegodd Victoria eu bod ym mhwynt 4 yn amserlen RoWIP ar hyn o bryd a hoffai ddiolch i'r Cyng Milne am ei gefnogaeth gydol y broses. Mae Victoria yn aros am y nod terfynol gan y Cyng Milne cyn cyhoeddi'r drafft ar gyfer cyfnod ymgynghori 3 mis a fydd yn rhedeg hyd at ganol Mehefin.

#### **Dyma 5 prif nod y cynllun:**

- 1. Sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac ar gael i'w defnyddio** drwy arolygon, dewisiadau lleiaf cyfyngol, archwilio llwybrau a hyrwyddir, clirio llystyfiant
- 2. Darparu datganiad a map swyddogol sy'n ddiweddar ac ar gael yn eang** gyda'r nod o wella mapiau ar-lein a system ar gyfer adrodd am broblemau
- 3. Darparu rhwydwaith mwy cysylltiedig, diogel a hygyrch** gan weithio â'n cydweithwyr teithio llesol
- 4. Gwella'r broses o hyrwyddo'r rhwydwaith, y ddealltwriaeth a'r defnydd ohono** gan wella gwybodaeth dargedu ar y rhyngwyd a chefnogi grwpiau gwirfoddol – prosiect anferthol ond buddiol iawn
- 5. Annog cymunedau i chwarae mwy o ran** hyrwyddo cynllun cynnal a chadw cymunedol ac archwilio/datblygu grwpiau gwirfoddolwyr

Hoffai Victoria i'r Fforwm Mynediad Lleol gyfranogi yn y cynlluniau gwaith cyflawni, a fydd yn cyflawni'r 5 nod. Adroddir yn ôl ar y rhain bob blwyddyn. Mae angen i'r cynlluniau gwaith nodi'r adnoddau sy'n ofynnol, yr allbynnau a'r amserlen.

**Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 17<sup>eg</sup> Mehefin 2019 i [erf@conwy.gov.uk](mailto:erf@conwy.gov.uk)**

<b>Cam Gweithredu 10.3</b>	<b>HA i gylchredeg copi digidol o'r ddogfen</b>
----------------------------	---

Gofynnodd Paul pa ran fydd gan y Fforwm yn y cynllun gwaith cyflawni. Mae'r Fforwm yn grŵp mawr a gall droi'n ddim ond trafodaeth. A oedd bwriad i sefydlu grŵp llai? Roedd Victoria yn meddwl y byddai ganddi slot ar agenda bob cyfarfod i drafod a diweddarau'r Fforwm. Teimlwyd na fyddai sefydlu is-grŵp ag aelodau wedi'u dethol yn gynhwysol i'r Fforwm cyfan.

Awgrymodd Tom W mai pan fydd angen trafod y manylion y bydd hi'n amser siarad ag aelodau penodol; fodd bynnag ar hyn o bryd mae'n fwy perthnasol i'r grŵp ehangach.

Ychwanegodd Tom G fod llawer o'r gwaith hawliau tramwy yn adweithiol ac nad yw'n bosibl rhestru'r cyfan y byddwn yn delio â nhw.

Mae Tom G yn ystyried y cynllun cyflawni fel proses i asesu'r 5 nod a osodwyd ac i ddyrannu adnoddau'n unol â'r nodweddion eang yn y cynllun cyflawni.

Ychwanegodd Don fod y ddogfen hon yn gosod y dull a'r cysyniad cyffredinol ynglŷn â sut y caiff y rhain eu cyflawni i'r dyfodol – sut bydd hyn yn bwrw ymlaen. Mae gofyn cael barn y grŵp yn awr ar a fydd y dull gweithredu a'r cynllun a amlinellwyd yn gweithio, ai dyma'r strwythur iawn ac yna bydd gwybodaeth arbenigol yn ofynnol i'r dyfodol.

Gofynnodd Tom W a yw yn rhan o'r cynllun bod aelodau'n gallu rhoi sylw ar flaenoriaethau penodol. Dywedodd Victoria fod y datganiad gweithredu t13 yn rhoi'r 5 nod, wedi'u dadansoddi yn y tudalennau dilynol yn y cyflwr presennol a'r hyn y mae Conwy yn bwriadu ei wneud. Er enghraifft 3.1.1 arolygon – parhau â'r arolygon cyfredol. Felly fe all y Fforwm asesu'r rhain (3.1.1, 312 ayb.) a rhoi adborth arnynt.

Gofynnodd Peter, o ran Brexit a'r newidiadau disgwylidig mewn deddfwriaeth ar hawliau tramwy, a oedd unrhyw beth wedi'i gynnwys yn y ddogfen i baratoi ar gyfer hyn. Dywedodd Victoria y bydd hyn i'w weld mwy yn y cynlluniau cyflawni – y ddogfen fyw, yn hytrach na'r prif gynllun. Ychwanegodd Peter fod is-grwpiau'n gweithio'n dda i ganolbwyntio ar faterion penodol. Dywedodd Victoria nad oes gan Conwy yr adnoddau staff i ddelio â hyn. Mae Victoria yn ceisio neilltuo un diwrnod yr wythnos i ddelio â'r holl faterion hawliau tramwy. Caroline yw'r unig aelod staff hawliau tramwy llawn. Cred Pete y bydd yn help mawr i'r Fforwm.

Diolchodd Jo i Vicky am y gydnabyddiaeth i ferlotwyr allu defnyddio'r lleiniau ar dudalen 17.

### **Dyddiad cyfarfodydd a gynhelir eleni:**

**Dydd Mercher 19** Mehefin 2019 (sylwch ar y dyddiad newydd a gafodd ei e-bostio)

Dydd Mercher 4 Medi 2019

Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2019